**Dyddiad cyhoeddi** Mawrth 2009

**Deall canllawiau NICE**

**Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG**

National Institute for Health and Clinical Excellence

# Trin golwg ddwbl drwy fewnblannu lens artiffisial ddidraidd

*Mae 'arweiniad Techlechyd' NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar pryd a sut y gellir defnyddio triniaethau llawfeddygol newydd mewn arfer clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir mewnblannu lens artiffisial ddidraidd yn y GIG i drin pobl sydd â golwg ddwbl y mae pob triniaeth arall wedi methu iddynt. Gelwir hyn yn olwg ddwbl anhydrin. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio golwg ddwbl anhydrin na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi am y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 6.

**Gwybodaeth am arweiniad Techlechyd NICE 185**

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Gellir cynnig y driniaeth hon fel opsiwn i drin pobl sydd â golwg ddwbl lle mae pob triniaeth arall wedi methu, cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth
- bod y claf yn deall bod tynnu lens naturiol y llygad yn barhaol, ac os oes angen tynnu'r lens artiffisial bod yna berygl o niwed i'r llygad
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

## Trin golwg ddwbl drwy fewnblannu lens artiffisial ddidraidd

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw ‘mewnblannu lens fewnllygadol ddidraidd ar gyfer golwg ddwbl anhydrin'.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio’n fanwl yma – siaradwch â’ch llawfeddyg i gael disgrifiad llawn.

Golwg ddwbl yw gweld dwy ddelwedd o un gwrthrych yn hytrach nag un. Pan gaiff hwn ei achosi gan y ddau lygad yn pwyntio i gyfeiriadau gwahanol fe'i gelwir yn olwg ddwbl ddeulygadog.

Mae triniaethau ar gyfer golwg ddwbl ddeulygadog yn cynnwys sbectol, pigiad o botulinwm tocsin i gyhyrau'r llygad a llawdriniaeth ar gyhyrau'r llygad. Os nad yw'r triniaethau hyn yn gweithio, gellir rhwystro golwg mewn un llygad drwy wisgo clwt dros y llygad neu'r sbectol, defnyddio

sbectol â hidlyddion arbennig neu wisgo lens gyffwrdd ddidraidd. Dim ond dros dro mae'r dulliau hyn yn gweithio fel arfer.

Mae'r driniaeth a ddefnyddir i fewnblannu lens artiffisial yn debyg i lawdriniaeth cataract. Rhoddir naill ai anesthesia lleol neu gyffredinol i'r claf. Tynnir y lens naturiol a gosodir y lens artiffisial ddidraidd yn ei lle. Weithiau gadewir y lens naturiol yn ei lle a gosodir lens artiffisial arlliw arbennig, a elwir yn lens grafanc yr iris, i lynu wrth yr iris.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu bod mewnblannu lens artiffisial ddidraidd yn driniaeth addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i'r driniaeth. Yn arbennig, dylai eich meddyg sicrhau eich bod yn deall bod tynnu lens naturiol y llygad yn barhaol, a bod yna berygl o niwed i'r llygad os oes angen tynnu'r lens artiffisial.

### Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud fy ngolwg yn waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

## Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Disgrifir rhai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE yn fras yma. Edrychodd NICE ar bum astudiaeth o'r driniaeth hon.

### Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn astudiaeth o 12 o gleifion, roedd sgôr golwg ar ôl mewnblannu lens artiffisial ddidraidd ar gyfartaledd yn 92 allan o 100 ar raddfa yn mesur gweithrediad golwg lle 0 oedd yr anabledd mwyaf a 100 oedd dim anabledd. Nododd y cleifion hyn eu boddhad â'r driniaeth ar gyfartaledd yn 3.4 ar raddfa o 0 (anhapus) i 4 (bodlon iawn). Parhaodd un claf yn yr astudiaeth hon i gael golwg ddwbl ond cafodd driniaeth maes o law a fu'n llwyddiannus heb gael llawdriniaeth bellach. Mewn astudiaeth o 6 o gleifion, nododd pob un welliant yn y golwg ddwbl pan gawsant eu harchwilio 14 mis ar ôl mewnblannu'r lens artiffisial ddidraidd. Nododd un astudiaeth o 2 o gleifion welliant yn y golwg ddwbl ar ôl y driniaeth hefyd. Nododd astudiaeth a ddilynodd 1 claf am 14 blynedd fod y golwg ddwbl wedi mynd yn llwyr ar ôl y driniaeth a pharhaodd y claf i gael golwg dda.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd cynghorwyr mai nodau'r driniaeth yw lleihau neu atal y golwg ddwbl heb achosi anghysur i'r llygad.

### Risgiau a phroblemau posibl

Yn yr astudiaeth â 12 o gleifion, torrodd un lens wrth gael ei gosod, ond gosodwyd lens yn ei lle yn llwyddiannus 6 mis yn ddiweddarach. Yn yr astudiaeth â 6 o gleifion, symudodd y lens a fewnblannwyd o'i safle gwreiddiol
mewn 1 claf ond nid effeithiodd hyn ar foddhad y claf â'r driniaeth.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr bod atal golwg yn barhaol mewn un llygad yn achosi pryder oherwydd y perygl o ddatblygu cyflwr sy'n bygwth golwg y llygad arall. Dywedodd y cynghorwyr hefyd pe byddai'r llygad â'r lens ddidraidd yn datblygu afiechyd, y gallai'r lens guddio arwyddion yr afiechyd. Dywedodd y cynghorwyr y gallai problemau posibl eraill gynnwys y lens a fewnblannwyd yn symud, pwysau yn y llygad a achosir gan hylif yn cronni a hefyd, os defnyddir lens crafanc yr iris, perygl o niwed i'r lens naturiol.

## Rhagor o wybodaeth am olwg ddwbl

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi cyngor a chymorth pellach i chi.

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'mewnblannu lens fewnllygadol ddidraidd ar gyfer golwg ddwbl anhydrin'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/HTG185*

*Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-7882-3

N1937 1P Mar 09

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2009. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations,

or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.